# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 12

HAWLIADAU MEDDIANT: PWERAU'R LLYS
MEWN PERTHYNAS Â SEILIAU ABSOLIWT

(NID YW'R BENNOD HON OND YN GYMWYS I GONTRACTAU SAFONOL)

*Seiliau meddiant absoliwt mewn perthynas â chontractau safonol*

### 215 Seiliau rhoi hysbysiad

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os—

(a) yw'r landlord o dan gontract safonol yn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 170 neu 191 (hysbysiad deiliad y contract) neu adran 186 (hysbysiad y landlord mewn cysylltiad â diwedd cyfnod penodol), a

(b) yw'r llys yn fodlon bod y sail wedi ei phrofi.

(2) Rhaid i'r llys wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys os—

(a) yw'r landlord o dan gontract safonol yn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 178 neu 199 (hysbysiad y landlord), a

(b) yw'r llys yn fodlon bod y sail wedi ei phrofi.

(4) Rhaid i'r llys wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd oni bai bod adran 217 (troi allan dialgar) yn gymwys (ac yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

(5) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 218 (adolygiad gan y llys sirol).

**216 Seiliau ôl-ddyledion rhent difrifol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r landlord o dan gontract safonol yn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 181 neu 187 (ôl-ddyledion rhent difrifol).

(2) Os yw'r llys yn fodlon bod gan ddeiliad y contract—

(a) ôl-ddyledion rhent difrifol ar y diwrnod y rhoddodd y landlord hysbysiad adennill meddiant i ddeiliad y contract, a

(b) ôl-ddyledion rhent difrifol ar y diwrnod y mae'r llys yn gwrando'r achos ar yr hawliad meddiant,

rhaid iddo wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

(3) Mae adran 181(2) neu (yn ôl y digwydd) adran 187(2) yn gymwys er mwyn penderfynu a oes gan ddeiliad contract ôl-ddyledion rhent difrifol.

(4) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 218 (adolygiad gan y llys sirol).